Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**TGP Cymru**

**Sbarc**
**Heol Maindy**
**Caerdydd**
**CF24 4HQ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

09/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# TGP Cymru

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Eirioli |
| Darparwr Cofrestredig | Tros Gynnal Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad Cyntaf |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Gwasanaeth eirioli i blant a phobl ifanc yw TGP Cymru. Mae'r swyddfa gofrestredig wedi'i lleoli yng Nghaerdydd. Mae'r gwasanaeth yn darparu tri gwasanaeth eirioli rhanbarthol wedi'u comisiynu yn rhanbarthau Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chwm Taf Morgannwg. Caiff pob tîm ei reoli gan reolwr tîm dynodedig a'i oruchwylio gan reolwr y gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol.

Mae plant a phobl ifanc yn cael gwasanaeth i'w cefnogi a'u grymuso i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau. Mae cymorth eirioli yn eu galluogi i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau ac yn sicrhau y caiff eu safbwyntiau eu hystyried yn y penderfyniadau hynny. Caiff plant a phobl ifanc eu trin ag urddas a pharch gan eiriolwyr sy'n meddu ar amrywiaeth o sgiliau, profiad a gwybodaeth ac sy'n llawn cymhelliant ac yn awyddus i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr o ansawdd. Mae gan yr eiriolwyr ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac arwyddocâd eu rolau o ran cefnogi plant a phobl ifanc i ddiwallu eu hanghenion eiriolaeth.

Mae trefniadau llywodraethu cyffredinol y gwasanaeth yn cefnogi diwylliant o gynwysoldeb a diwylliant sy'n grymuso, yn ogystal â dull seiliedig ar hawliau wrth ddarparu gwasanaeth eirioli o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc. Mae systemau ar waith er mwyn helpu i ddarparu gwasanaeth eirioli annibynnol o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc, sy'n eu helpu i gyflawni eu canlyniadau llesiant.

## Llesiant

Caiff plant a phobl ifanc eu trin ag urddas a pharch, a chaiff eu hawliau a'u hawliadau eu cynnal. Mae'r eiriolwyr yn ymgysylltu â'r plant a'r bobl ifanc yn llawn brwdfrydedd. Maent yn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u bod yn cael y cymorth a'r gynrychiolaeth gywir er mwyn cyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau ac yn gwneud yn siŵr bod eu cyfrinachedd yn cael ei barchu. Mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at hapusrwydd y plant a'r bobl ifanc ac yn cefnogi eu hiechyd meddwl, eu hiechyd emosiynol a'u llesiant er mwyn hybu canlyniadau gwell a gwneud gwahaniaeth yn eu bywydau.

Caiff y plant a'r bobl ifanc gymorth i fwynhau cydberthnasau diogel ac iach. Mae'r eiriolwyr yn sicrhau eu bod yn rhoi cydsyniad o ran pa wybodaeth y maent am ei rhannu a pha wybodaeth y byddant yn dewis ei chadw'n gyfrinachol. Mae hyn yn helpu'r plant a'r bobl ifanc i ymddiried yn eu heiriolwyr a'r gwasanaeth a ddarperir. Mae eu hadborth am y gwasanaeth yn dangos eu bod yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'u heiriolwyr, eu bod yn teimlo bod eu barn yn cael ei chynrychioli a'u bod yn gallu siarad am eu pryderon a'u gofidiau a'r hyn a fyddai yn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau llesiant. Mae rhai o'r plant a'r bobl ifanc yn dychwelyd i ddefnyddio'r gwasanaeth eto ac maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'u heiriolwyr.

Mae'r gwasanaeth yn mabwysiadu arferion gwaith clir a diogel wrth ymgysylltu â'r plant a'r bobl ifanc er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu diogelu. Mae'r eiriolwyr yn gyfarwydd â pholisi a gweithdrefn ddiogelu'r gwasanaeth ac yn cael hyfforddiant ar ddiogelu. Mae'r eiriolwyr yn hyderus i uwchgyfeirio pryderon diogelu ac i wneud atgyfeiriadau pan fo angen. Mae'r cofnodion achos yn adlewyrchu arferion gwaith diogel a gofynnir am asesiadau risg pan ddaw atgyfeiriad i law. Os na cheir asesiad risg, gwneir cais penodol am wybodaeth er mwyn cefnogi arferion gwaith diogel. Mae polisi diogelu'r gwasanaeth yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol a gweithdrefnau diogelu Cymru.

## Gofal a Chymorth

Caiff anghenion eiriolaeth y plant a'r bobl ifanc eu nodi'r glir pan gânt eu hatgyfeirio at y gwasanaeth. Mae polisi dechrau darparu gwasanaeth ar waith ac mae'r datganiad o ddiben yn nodi'r terfynau amser i'r gwasanaeth gysylltu â'r plant a'r bobl ifanc. Mae'r cofnodion achos yn dangos bod hyn yn cael ei gyflawni'n rheolaidd. Caiff unrhyw achosion o oedi eu hesbonio drwy nodi nad oedd y plentyn neu'r person ifanc ar gael neu ei fod wedi penderfynu peidio ag ymgysylltu â'r gwasanaeth.

Mae'r atgyfeiriadau at y gwasanaeth yn amlinellu'r rheswm dros gynnal yr ymyriad eiriolaeth ac yn nodi ai cais am wasanaeth eirioli ar ffurf ‘cynnig rhagweithiol’ neu ‘ar sail mater penodol’ yw'r cais. Gofynnir am wybodaeth am y ffordd yr hoffai plant a phobl ifanc i'r gwasanaeth gysylltu â nhw, gan gynnwys unrhyw ofynion penodol i'w helpu i ymgysylltu â'r gwasanaeth. Mae hyn yn sicrhau y gellir nodi'r angen am ddehonglydd neu'r angen i ddarparu'r gwasanaeth yn Gymraeg neu Saesneg yn ystod y cam atgyfeirio er mwyn sicrhau y gall y plant a'r bobl ifanc gyfathrebu a mynegi eu hunain yn unol â'u dewisiadau a'u hanghenion. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r ‘cynnig rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg ac mae'r holl wybodaeth a phob darn o lenyddiaeth ar gael yn ddwyieithog.

Mae'r plant a'r bobl ifanc yn cael gwybodaeth am y gwasanaeth sydd ar gael mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch i'w helpu i ddeall sut y caiff gwasanaeth eirioli ei ddarparu. Yn gyffredinol, caiff y wybodaeth hon ei rhoi iddynt ar ôl iddynt gael eu hatgyfeirio, a rhoddir ciplun o'r eiriolwr a fydd yn cysylltu â nhw hefyd. Mae'r eiriolwyr yn sicrhau bod gan y plant a'r bobl ifanc wybodaeth ysgrifenedig am y gwasanaeth yn ystod eu hymweliad cyntaf. Mae hyn yn eu helpu i ddeall eu hawliau a'u disgwyliadau o ran yr hyn y gall y gwasanaeth ei ddarparu. Mae'r eiriolwyr yn rhoi gwybod i'r plant a'r bobl ifanc am eu hawliau, yn sicrhau eu bod yn deall yr hysbysiad cyfrinachedd a phreifatrwydd, eu cyfrifoldebau diogelu a'u hawl i gwyno. Caiff hyn ei ddarparu fel mater o drefn gan yr eiriolwyr, gan ei fod wedi'i gynnwys yng nghofnodion rhai o'r plant a'r bobl ifanc. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi datblygu templed i'w ddefnyddio er mwyn sicrhau bod yr eiriolwyr yn cofnodi'r wybodaeth hon yn gyson er mwyn dilysu'r wybodaeth a gaiff y plant yn ystod y pwynt cyswllt cyntaf.

Mae'r eiriolwyr yn helpu'r plant a'r bobl ifanc i ddatblygu cynlluniau sy'n amlinellu'r rhesymau dros y cymorth a ddarperir ganddynt a nodau'r cymorth hwnnw. Caiff y rhain eu llunio mewn ffordd sy'n diwallu anghenion y plant a'r bobl ifanc, ac sy'n sicrhau eu bod yn bwrpasol a'u bod yn cael eu deall. Caiff barn, dymuniadau a theimladau'r plant a'r bobl ifanc eu casglu, a chaiff y wybodaeth y byddant yn cytuno i'w rhannu ei nodi a'i chofnodi er mwyn gallu ei rhannu ar eu rhan. Caiff y cynlluniau eiriolaeth eu hadolygu ar ôl i'r nodau a'r amcanion gael eu cyflawni neu pan na ellir cymryd unrhyw gamau pellach. Rhoddir cynlluniau newydd ar waith os bydd materion newydd yn codi neu os na fydd angen unrhyw gymorth pellach. Ar ddiwedd yr ymyriad eirioli, rhoddir ffurflen werthuso i'r plant a'r bobl ifanc er mwyn iddynt roi adborth ar y gwasanaeth a ddarparwyd.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o brif swyddfa ac mae swyddfeydd lloeren wedi'u lleoli yn y tri rhanbarth y mae'n gweithredu ynddynt. Ni chynhaliwyd ymweliadau safle â'r swyddfeydd lloeren fel rhan o'r arolygiad gan eu bod yn cael eu defnyddio fel ardaloedd i gynnal cyfarfodydd, pan fo angen, ac am nad oes unrhyw wybodaeth yn cael ei storio ar y safleoedd. Mae'r brif swyddfa mewn adeilad aml-lawr mawr a modern sy'n darparu lle addas a diogel i ddarparu'r gwasanaeth. Mae ardal derbynfa a rennir yn sicrhau bod ymwelwyr yn cael eu croesawu'n ddiogel a bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal pan fyddant yn cyrraedd yr adeilad. Mae trefniadau ar waith gan weithredwr gwasanaethu'r safle ar gyfer cydlynu a rheoli diogelwch yr adeilad, diogelwch cyffredinol, gwaith cynnal a chadw a lles pob preswylydd.

Caiff holl wybodaeth y gwasanaeth ei storio'n electronig ac yn ddiogel. Mae system cofnodion achos a gwybodaeth adnoddau dynol ar waith er mwyn helpu i weithredu'r gwasanaeth. Nid oes unrhyw gofnodion papur yn cael eu cadw ac mae'r ffaith bod yr holl gofnodion a gedwir bellach yn cael eu storio ar ffurf electronig yn golygu y gall rheolwyr, eiriolwyr ac aelodau o staff gweinyddol weithio'n hyblyg ar draws y gwasanaeth. Defnyddir prosesau cyfathrebu rhithwir er mwyn i unigolion mewn gwahanol swyddfeydd allu cyfathrebu ac er mwyn galluogi unigolion i fynychu cyfarfodydd rhithwir.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu cyffredinol y gwasanaeth yn cefnogi diwylliant o gynwysoldeb a diwylliant sy'n grymuso, yn ogystal â dull seiliedig ar hawliau wrth ddarparu gwasanaeth eirioli o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc wrth wraidd y gwasanaeth ac yn eu helpu i fynegi eu safbwyntiau ac i sicrhau y caiff eu dymuniadau eu clywed a'u parchu. Mae'r datganiad o ddiben yn amlinellu gwerthoedd, nodau ac amcanion y gwasanaeth ac yn darparu gwybodaeth am y ffordd y caiff ei ddarparu. Mae systemau effeithiol ar waith ar lefel sefydliadol i oruchwylio'r gwasanaeth yn dda, a cheir rhai amrywiadau rhanbarthol o ran arferion rhwng rhannau o'r gwasanaeth. Mae'r adborth gan gomisiynwyr yn gadarnhaol a chawsom sylwadau fel, "*Service is a reliable provider of high quality, focused advocacy ….Overall service is excellent in helping CYP (children and young people) achieve their outcomes."; "The service has a clear and simple referral system, with clear timescales."* ac *"Overall service is excellent in helping CYP (children and young people) achieve their outcomes".*

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu arferion recriwtio diogel ac mae'r eiriolwyr yn cael cymorth er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir ganddynt yn gyson, yn broffesiynol ac yn seiliedig ar wybodaeth. Ar ôl cael eu penodi, mae'r eiriolwyr yn ymgymryd â phroses sefydlu drylwyr ac yn cwblhau cyfnod prawf o chwe mis. Cynhelir sesiynau goruchwylio rheolaidd; fodd bynnag, nid yw'r sesiynau hyn yn dangos cydymffurfiaeth lawn â'r gofynion rheoliadol mewn perthynas ag amserlenni gan fod amrywiaethau rhanbarthol o ran y ffordd y cânt eu cofnodi a'u storio'n electronig. Byddai cysondeb yn sicrhau bod modd goruchwylio'r broses ac yn golygu y gellid gweld pob cofnod. Mae rhai nodiadau goruchwylio wedi cael eu cynnwys fel rhan o ffeiliau eirioli'r plant a'r bobl ifanc a chadarnhaodd rheolwr y gwasanaeth y byddai'r rhain yn cael eu dileu. Mae swyddog hyfforddiant yn meddu ar drosolwg da o anghenion hyfforddiant yr eiriolwyr ac yn trefnu a / neu'n hwyluso hyfforddiant penodol i bob aelod o'r staff o'r adeg y cânt eu sefydlu. Ceir trosolwg cynhwysfawr o hyfforddiant y staff, dyddiadau adnewyddu hyfforddiant a lefelau presenoldeb, ac mae'r eiriolwyr naill ai'n meddu ar gymhwyster eiriolaeth neu'n gweithio tuag at ennill cymhwyster o'r fath er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cyrraedd y safonau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion eiriolaeth y plant a'r bobl ifanc. Ni chynhaliwyd arfarniadau cyson bob blwyddyn. Cafodd hyn ei briodoli i'r ffaith bod systemau gwybodaeth wedi cael eu huno a'u datblygu, ond cwblhawyd yr arfarniadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Caiff y plant a'r bobl ifanc eu cefnogi gan eiriolwyr medrus a chymwys sy'n meddu ar y wybodaeth i ddarparu'r lefel ofynnol o gymorth i sicrhau y caiff eu hanghenion eiriolaeth eu diwallu. Mae'r eiriolwyr yn frwdfrydig ac yn ymrwymedig i'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu er mwyn sicrhau gwasanaeth eirioli o ansawdd uchel.

Roedd yr adborth a gafwyd gan yr eiriolwyr yn eithriadol o gadarnhaol wrth sôn am eu gallu i gael gafael ar aelodau'r tîm rheoli a ffocws y sefydliad ar eu llesiant ac ar gymryd camau i hybu staff ac i sicrhau y caiff pob aelod o'r staff ei gefnogi. Mae gan y grŵp staff ymdeimlad o gydlyniant er gwaethaf ardal ddaearyddol eang y gwasanaeth ac mae'n cefnogi tîm unedig sy'n rhannu gwerthoedd cadarn.

Mae gan y gwasanaeth systemau ar waith i fonitro nifer y 'materion seiliedig ar eiriolaeth' a nifer y 'cynigion rhagweithiol' ar gyfer eiriolaeth fel rhan o'r trefniadau comisiynu ag awdurdodau lleol. Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn casglu adborth gan y plant a'r bobl ifanc fel mater o drefn ar ddiwedd ymyriad eirioli a dywedodd y rheolwr wrthym fod y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio at ddibenion archwilio a threfniadau comisiynu.

Mae gan y gwasanaeth systemau ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi ymweld â'r gwasanaeth yn unol â'r rheoliadau. Nid oes cyfleoedd uniongyrchol i gyfarfod â'r plant a'r bobl ifanc a gofynnir am adborth drwy ddefnyddio ffurflenni adborth. Caiff y wybodaeth hon ei choladu a'i harchwilio er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn effeithiol a'i fod yn diwallu eu hanghenion eiriolaeth ac yn cyrraedd y safonau. Caiff cwynion a sylwadau eu hystyried ac ymatebir iddynt yn unol â pholisi a gweithdrefn gwyno'r gwasanaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/07/2024